

Geirfa Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae

Dylid defnyddio'r eirfa hon ar y cyd â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae. Wrth ddatblygu unedau cymwysterau, deunyddiau hyfforddi, swydd-ddisgrifiadau neu ddeunyddiau eraill sy'n seiliedig ar y NOS, gall yr eirfa hon helpu i egluro iaith.

Defnyddir terminoleg amrywiol ar draws pedair gwlad y DU. Ni fwriedir i'r eirfa hon ffafrio un term dros un arall ond yn hytrach adlewyrchu arlliwiau ieithyddol a sicrhau eglurder. Dylai defnyddwyr NOS anelu i ddefnyddio'r iaith ddiweddaraf, fwyaf cynhwysol a myfyriol ar gyfer eu cyd-destun nhw.

Term	Diffiniad
Adeiladwaith gwaith chwarae	Adeiladwaith gaiff ei hwyluso gan weithwyr chwarae'n darparu'r adnoddau, y rhannau rhydd a'r offer adeiladu i blant greu strwythurau mawr neu fach, dros dro neu led barhaol, fel llwyfannau, gwibgerti, tipis, pyllau tywod neu guddfannau.
AGGMYMA (SLLRRRP)	Model ymarfer myfyriol ar gyfer asesu budd-risg dynamig. Mae'n cyfeirio at Arhoswch, Gwylwch, Gwrandewch, Myfyrio, Ymateb, Myfyrio, Arfer.
Anghenion a hoff ddewisiadau chwarae	Mae anghenion chwarae'n cyfeirio at y gofynion biolegol, seicolegol a chymdeithasol sylfaenol y mae rhaid eu cyflawni drwy chwarae ar gyfer iechyd, lles a datblygiad plant. Mae hoff ddewisiadau chwarae'n cyfeirio at y diddordebau, dewisiadau a ffurfiau chwarae unigol y caiff plant eu denu atynt ar adeg benodol.
Anghenion cymorth ychwanegol	Mae hyn yn cyfeirio at y cymorth ychwanegol neu wahanol y gallai plentyn fod ei angen, ar unrhyw adeg, i gyfranogi, dysgu, datblygu a ffynnu ochr yn ochr â'u cyfoedion. Gall plentyn fod ag anghenion cymorth ychwanegol o ganlyniad i ystod eang o ffactorau, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): • anabledd neu anhwylderau iechyd tymor hir • niwrowahaniaeth neu wahaniaethau dysgu • anghenion cymdeithasol, emosiynol neu iechyd meddwl

	• trawma neu brofiadau bywyd niweidiol • amgylchiadau teuluol neu ofalu • rhwystrau a grëir gan yr amgylchedd, systemau neu agweddau • sefyllfaoedd dros dro neu newidiol (e.e. profedigaeth, cyfnodau pontio, salwch). Yn bwysig iawn, nid yw plentyn angen diagnosis meddygol i fod ag anghenion cymorth ychwanegol, a gallai'r anghenion hynny fod yn rhai tymor byr, ysbeidiol neu dymor hir.
Anghenion deietegol	Gofynion ar gyfer deiet penodol allai fod o ganlyniad i ofynion diwylliannol neu grefyddol, hoffterau, alergeddau neu resymau eraill.
Amgylchedd (amgylchedd chwarae)	Y cyd-destun cyflawn ble bydd chwarae'n digwydd, yn cynnwys gofod ffisegol, cysylltiadau cymdeithasol, awyrgylch emosiynol, disgwyliadau diwylliannol a phresenoldeb ac ymddygiad oedolion.
Arddull gwaith chwarae	Mae'r NOS yn disgrifio gwaith chwarae fel "arddull unigryw tuag at weithio gyda phlant o bob oed mewn ystod eang o leoliadau. Diben penodol gweithiwr chwarae yw cefnogi a hwyluso chwarae fel y disgrifir yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae". Defnyddir y term arddull gwaith chwarae yn y NOS i ddisgrifio unigolyn neu sefydliad sy'n defnyddio'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn eu hymarfer, un ai beth o'r amser, neu trwy'r amser.
Arsylwad/arsylwi chwarae	Mewn gwaith chwarae, arsylwi yw'r broses fwriadol, fyfyrïol o wylïo, gwrandao ar a sylwi ar chwarae plant, y gofod chwarae a rhyngweithiadau, er mwyn deall y broses chwarae a defnyddio'r ddealltwriaeth honno i gefnogi, gwarchod a hwyluso chwarae. Nid yw arsylwi mewn gwaith chwarae'n ymwneud ag asesu neu farnu, ond yn hytrach ddeall chwarae o safbwynt y plentyn fel y gall ymarferwyr ymateb mewn modd sensitif.
Asesu budd-risg	Proses o asesu risg sy'n canolbwyntio ar bennu os yw buddiannau gweithgaredd penodol yn drech na'r risgiau gweddilliol o niwed. Defnyddir y broses hon yn unol â safon y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (ISO 4980:2023). Cyfeirir ati'n gyffredinol hefyd fel asesu risg-budd, ac weithiau fel dadansoddi risg-budd.
Asesu budd-risg dynamig	Asesu budd-risg gweithredol, parhaus o sefyllfaoedd wrth iddynt ddigwydd, a gynhelir, fel arfer, fel proses feddyliol yn hytrach na phroses ysgrifenedig. Mae hyn yn gysylltiedig ag ymyriadau gwaith chwarae ac amrywiol fodelau o asesu budd-risg dynamig.
CCUHP	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cefnogi a hwyluso	Termau cysylltiedig a ddefnyddir yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae i ddisgrifio'r ffyrdd y mae gweithwyr chwarae'n gweithio gyda phlant sy'n chwarae. Mae cefnogi a hwyluso wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Cefnogi: yng nghyd-destun ymarfer gwaith chwarae, mae cefnogi yn cyfeirio at y modd perthynol, ymatebol, dan arweiniad y plentyn y bydd gweithwyr chwarae'n ymarfer eu crefft. Hwyluso: yng nghyd-destun ymarfer gwaith chwarae, mae hwyluso yn golygu gwarchod a chyfoethogi'r broses chwarae trwy greu a chynnal yr amodau lle gall plant chwarae'n rhydd, heb gyfarwyddo, rheoli neu osod agendâu oedolion ar eu chwarae.
Cydweithwyr	Oedolion eraill yr ydych yn gweithio gyda nhw y tu hwnt i'ch tîm uniongyrchol.
Cyfathrebu	Mae hyn yn cyfeirio at gyfathrebu dieiriau a geiriol. Mae'n cynnwys cyfathrebu dieiriau a achosir gan gyflwr neu amhariad.
Dadansoddi	Dadelfennu a dehongli gwybodaeth.
Datblygiad plentyndod	Mae hyn yn cyfeirio at ddatblygiad yn ystod plentyndod sy'n berthnasol i waith chwarae.
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)	DPP anffurfiol a ffurfiol. Cyfeirir ato hefyd fel datblygiad proffesiynol, datblygiad proffesiynol cyson neu reolaidd.
Digonolrwydd cyfleoedd chwarae	Amodau ble y mae hawl plant i chwarae'n cael ei gyflawni'n ymarferol, trwy dderbyn digon o amser, lle, cyfleoedd a rhyddid i gymryd rhan mewn chwarae yn eu bywydau bob dydd, yn unol â Sylw Cyffredinol Rhif 17 Pwyllgor y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a deddfwriaethau cenedlaethol perthnasol (yn 2026, wedi ei ddeddfu yng Nghymru a'r Alban).
Dull seiliedig ar asedau	Dull sy'n cydnabod, gwerthfawrogi ac adeiladu ar gryfderau, doniau, sgiliau chwarae, diddordebau, hunaniaethau a ffyrdd o fod presennol plant, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiffygion, anghenion neu'r hyn y credir y mae plant yn ddiffygiol ynddo.
Fframwaith sefydliadol	Mae hyn yn cyfeirio at bolisiâu a gweithdrefnau'r lleoliad a phwysigrwydd ystyried ac adolygu'r rhain fel cyfanwaith.
Fframweithiau cyfoes	Fframweithiau deddfwriaethol, damcaniaethol, polisi a gwerthusol sy'n berthnasol i chwarae ac ymarfer gwaith chwarae.

Gogwydd chwarae	Mae hyn yn cyfeirio at y rhagdybiaethau, hoff ddewisiadau, neu farn ar werth ymwybodol neu ddiarwybod sy'n dylanwadu ar sut y mae oedolion yn dirnad, galluogi, cyfyngu neu ymateb i chwarae plant.
Goruchwyllo ac arfarnu	Goruchwyllo: proses reolaidd, wedi ei chynllunio sy'n cefnogi cyflogaion i fyfyrion ar eu gwaith, rheoli cyfrifoldebau a lles, a chynnal ymarfer diogel ac effeithiol. Arfarnu: adolygiad ffurfiol o berfformiad cyflogai dros gyfnod penodol, a ddefnyddir i gydnabod cyflawniadau, dynodi anghenion datblygu a chytuno ar amcanion ar gyfer y dyfodol.
Gweithiwr chwarae	Person proffesiynol sy'n gweithio i gefnogi a hwyluso chwarae plant yn unol â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Gall weithio heb oruchwyliaeth fel rhan o dîm ehangach a bod ag amrywiol gyfrifoldebau o fewn y tîm hwnnw. Gall weithio hefyd mewn rolau datblygu chwarae neu ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.
Gwerthuso	Mae gwerthuso mewn gwaith chwarae'n rhan o'r broses fyfyrion o lunio barn ynghylch gwerth ymarfer, amgylcheddau ac ymyriadau gwaith chwarae, yn seiliedig ar arsylwi, myfyrio ac adborth, er mwyn cefnogi a gwella chwarae plant a ddewisir o wirfodd ac a gyfarwyddir yn bersonol. Gall gwerthuso fod yn dymor byr neu dymor hir.
Hawliau plant	Mae hyn yn cyfeirio at holl hawliau plant.
Hygyrch	Mae man chwarae hygyrch yn ofod sy'n rhydd o rwystrau, sy'n caniatáu mynediad i ddefnyddwyr symud o amgylch y gofod ac sy'n cynnig cyfleoedd cyfranogi ar gyfer ystod o wahanol alluoedd. Er na fydd pob nodwedd neu weithgaredd yn gallu cael ei defnyddio gan bob plentyn, mae man chwarae hygyrch yn darparu cyfleoedd ystyrlon i bob plentyn chwarae a chyfranogi. Yn ogystal, gall gweithwyr chwarae medrus addasu'r amgylchedd, dileu rhwystrau a chefnogi cyfleoedd ystyrlon i bob plentyn chwarae. Mae hygyrchedd yn ymwneud nid yn unig â'r gofod ei hun, ond hefyd sut allai pobl yn rhesymol gyrraedd y gofod o'u cartrefi.
Iaith gwrthwahaniaethol	Terminoleg gyfoes a pherthnasol yn cynnwys: tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, ymarfer cynhwysol, ymarfer gwrthwahaniaethol, ymarfer gwrth-hiliol, cyfiawnder cymdeithasol, hawliau, tlodi, niwroamrywiaeth, niwrowahaniaeth, anghenion cymorth ychwanegol, rhagfarn ddiarwybod.
Lleoliad gwaith chwarae	Unrhyw leoliad ar gyfer plant ble gellid defnyddio'r arddull gwaith chwarae. Mae hyn yn cynnwys meysydd chwarae antur, gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, ysbytai, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, gwaith chwarae peripatetig, carchardai, gwaith chwarae mynediad agored, ysgolion, clybiau ieuencid.
Lles	Cyflwr o fod yn gyfforddus, iach neu hapus.

Man chwarae cynhwysol	Mae man chwarae hygyrch yn ofod sy'n rhydd o rwystrau, sy'n caniatáu mynediad i ddefnyddwyr symud o amgylch y gofod ac sy'n cynnig cyfleoedd cyfranogi ar gyfer ystod o wahanol alluoedd. Er na fydd pob nodwedd neu weithgaredd yn gallu cael ei defnyddio gan bob plentyn, mae man chwarae hygyrch yn darparu cyfleoedd ystyrlon i bob plentyn chwarae a chyfranogi. Yn ogystal, gall gweithwyr chwarae medrus addasu'r amgylchedd, dileu rhwystrau a chefnogi cyfleoedd ystyrlon i bob plentyn chwarae. Mae hygyrchedd yn ymwneud nid yn unig â'r gofod ei hun, ond hefyd sut allai pobl yn rhesymol gyrraedd y gofod o'u cartrefi.
Mannau chwarae	Mannau y bydd plant yn eu creu, eu hawlio, eu haddasu a'u defnyddio ar gyfer chwarae, o fewn amgylchedd, gyda neu heb gymorth oedolion. Nid yw mannau chwarae yn ardaloedd sefydlog neu wedi eu diffinio ymlaen llaw. Cânt eu ffurfio trwy weithredoedd, perthnasoedd ac ystyron chwarae plant, a gallant fod yn rhai dros dro, yn gyfnewidiol neu'n symbolaidd yn hytrach na'n lleoliadau ffisegol parhaol.
Myfyrio	Y broses fwriadol o feddwl yn feirniadol am eich ymarfer gwaith chwarae, arsylwadau, penderfyniadau a rhyngweithiadau, er mwyn deall eu heffaith ar chwarae plant ac i hysbysu ymarfer i'r dyfodol.
Niwroamrywiaeth	Mae niwroamrywiaeth yn cyfeirio at y ffaith nad yw pob ymennydd yn meddwl neu'n teimlo yn yr un ffordd a bod y rhain yn wahaniaethau naturiol mewn bodau dynol. Mae niwroamrywiaeth yn cyfeirio at bawb.
Niwrowahanol	Gall niwroteipiau lleiafrifol gynnwys cyflyrau fel awtistiaeth, ADHD, dyscalwlia, dyslecsia ac Anhwylder yn Natblygiad y Cydsymud a gellir eu disgrifio hefyd fel cyflyrau niwroddatblygiadol. Niwrowahanol yw'r term torfol a ddefnyddir i gyfeirio at bobl sydd â niwroteipiau lleiafrifol.
Partneriaid cymunedol	Yr ystod eang o unigolion a sefydliadau yn y gymuned y gallai bod angen i leoliadau gwaith chwarae weithio gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys llywodraeth leol, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, busnesau, rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned.
Plant/plant a phobl ifanc	Y diffiniad cyfreithiol o blentyn yw hyd at 18 oed. Tra gall rhai ymarferwyr hefyd ddefnyddio pobl ifanc, arddegwyr neu dermau eraill am blant hŷn, at ddibenion y NOS, mae'r term plentyn/plant yn cyfeirio at bob plentyn hyd at 18 oed.
Plant anabl	Yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd, mae plentyn anabl yn blentyn sydd ag amhariad neu gyflwr ac sy'n cael ei anablu gan rwystrau mewn cymdeithas, yn hytrach na gan yr amhariad ei hun.
Polisi chwarae	Dogfen bolisi'r lleoliad ddylai gynnwys agweddau'r lleoliad tuag at chwarae, yr arddull gwaith chwarae, hawliau plant, rheoli risg a gwybodaeth berthnasol arall.

Polisi rheoli risg	Polisi sy'n disgrifio arddull y lleoliad tuag at reoli risg a gall gyfeirio hefyd at asesu budd-risg dynamig, pwysigrwydd cymryd risg wrth chwarae ac asesu budd-risg ysgrifenedig.
Recriwtio mwy diogel	A adnabyddir hefyd fel recriwtio diogel ac sy'n cyfeirio at wiriadau DBS, cysylltu â chanolwyr ac arferion eraill sy'n cynorthwyo gyda'r broses recriwtio. Mae canllawiau'n amrywio ar draws y pedair gwlad.
Risg	Fel y diffinnir gan y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (ISO): cyfuniad o'r tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd a difrifoldeb y niwed hwnnw.
Rhagfarn ddjarwybod	Mae rhagfarn ddjarwybod yn cyfeirio at y rhagdybiaethau, yr agweddau neu'r stereoteipiau difeddwl, anfwriadol sy'n dylanwadu sut y byddwn yn dirnad, deall ac ymateb i bobl eraill heb ymwybyddiaeth ymwybodol.
Rhannau rhydd	Mae rhannau rhydd yn cynnwys darparu ystod eang o ddeunyddiau naturiol a gwneuthuredig y gellir eu defnyddio i adeiladu, creu, dinistrio a chael eu trwytho â rhinweddau dychmygol, fel rhan o chwarae plant.
Rheolwr Gwaith Chwarae	Aelod o staff sy'n goruchwyllo gwaith gweithwyr chwarae a gweithwyr chwarae cynorthwylol. Efallai y bydd gan reolwyr gwaith chwarae rolau amrywiol hefyd wrth gytuno ar a rheoli cyllidebau, rhedeg lleoliad gwaith chwarae'n gyffredinol a pholisïau a gweithdrefnau.
Rheolwr llinell	Yr unigolyn, neu'r unigolion dynodedig, sydd â chyfrifoldeb ffurfiol am eich goruchwyllo, eich cyfarwyddo ac atebolrwydd yn eich sefydliad chi.
Rhieni	Oedolion sy'n gyfrifol am y plant yn cynnwys rhieni, prif bobl sy'n rhoi gofal, gofalwyr, gofalwyr sy'n berthnasau, rhieni biolegol, person â chyfrifoldeb gofalu.
Rhwystrau i chwarae	Caiff rhwystrau i chwarae eu profi gan bob plentyn mewn ffyrdd gwahanol ac ar wahanol adegau. I rai plant, efallai oherwydd eu hoedran neu o ganlyniad i anghenion cymorth ychwanegol cymhleth, efallai y bydd angen mwy o gymorth gan oedolyn i gefnogi eu hawl i chwarae mewn modd ymatebol, sy'n meithrin. Fel gweithwyr chwarae, dylem anelu i fod yn rhagweithiol ac ataliol yn ogystal ag ymatebol wrth waredu rhwystrau.
Staff	Trwy'r NOS, mae'r term staff yn cyfeirio at staff yn y lleoliad waeth os ydynt yn cael eu talu neu'n ddi-dâl a gallant fod â nifer o wahanol rolau (yn cynnwys rolau sydd ddim yn rhai gwaith chwarae).
Strategaethau DPP	Ystod o wahanol strategaethau DPP yn cynnwys: darllen, hyfforddiant, ymweld â lleoliadau eraill, gweminarau, goruchwyllo, fforymau ar-lein, podlediadau, cymwysterau, darllen cylchlythyrau, cysgodi swydd.

Tegwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EEDI)	Term ambarél sy’n rhoi arweiniad i sefydliadau, gwasanaethau ac ymarferwyr ar sut i sicrhau tegwch, parch, mynediad a pherthyn i bob person. Tegwch: yr arfer o gydnabod bod gan unigolion wahanol anghenion ac amgylchiadau, a dyrannu adnoddau a chyfleoedd mewn ffyrdd sy’n mynd i’r afael ag anfantais a galluogi deilliannau teg. Cydraddoldeb: yr egwyddor y dylai pob unigolyn gael eu trin yn deg a chael yr un hawliau a chyfleoedd, heb wahaniaethu. Amrywiaeth: presenoldeb a chydabyddiaeth o wahaniaeth mewn grŵp neu gymdeithas, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wahaniaethau mewn hunaniaeth, cefndir, profiad a ffyrdd o fod. Cynhwysiant: y broses barhaus o greu amgylcheddau ble y mae pob unigolyn yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu parchu, eu cefnogi a’u bod yn gallu cyfranogi’n llawn.
Tîm	Pobl yr ydych yn gweithio’n agos gyda nhw tuag at gyflawni amcan cytûn. Gall hyn fod un ai yn eich sefydliad eich hun, yn gyfeillion beirniadol neu’n gydweithwyr gwaith chwarae eraill.
Y cylchdro chwarae	Model damcaniaethol sy’n disgrifio’r broses o chwarae, fel yr awgrymwyd gan Gordon Sturrock a Perry Else yn <i>Colorado Paper</i> 1998.
Ymarfer gwaith chwarae	Mae hyn yn cyfeirio at ymarfer fel y’i hysbysir gan, ac sy’n seiliedig ar, yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, damcaniaeth gwaith chwarae, arsylwadau, rhyngweithiadau a myfyrdodau ar ymarfer gwaith chwarae personol ac ymarfer pobl eraill.
Ymarfer gwaith chwarae cynhwysol	Dull gwaith chwarae sy’n mynd ati’n weithredol i waredu rhwystrau ffisegol, cymdeithasol, diwylliannol, agweddol a sefydliadol fel y gall pob plentyn gael mynediad i, cyfranogi a siapio eu chwarae a ddewisir o wirfodd, mewn ffyrdd sy’n parchu eu hawliau, eu hurddas, eu hunigoliaeth a’u galluedd. Mae ymarfer gwaith chwarae cynhwysol yn seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac mae’n cydnabod nad yw cynhwysiant yn golygu gwneud i blant ffytio i mewn i ddarpariaeth sy’n bodoli eisoes, ond yn hytrach addasu amgylcheddau, agweddau ac ymarfer i gyfarfod â’r plant ble y maen nhw.
Ymarfer myfyriol	Gweithwyr chwarae’n meddwl yn ddwys am yr hyn maen nhw’n ei wneud er mwyn dynodi’r hyn y maent yn ei wneud yn dda a’r hyn allent ei wella er mwyn cyfoethogi eu hymarfer proffesiynol. Mae hon yn broses barhaus a gall ddigwydd cyn, yn ystod ac ar ôl ymarfer. Mae ymarfer myfyriol gwaith chwarae’n cynnwys edrych, nid dim ond ar yr hyn ddigwyddodd, ond hefyd ar ein moeseg, emosiynau, teimladau a’n credau a sut y mae’r rhain yn effeithio ar ein hymarfer. Mewn rhai cyd-destunau gelwir hyn yn ymarfer ‘atgyrchol’. At ddibenion y NOS, mae ymarfer myfyriol yn cynnwys meddwl atgyrchol.

Ymarfer proffesiynol	Dealltwriaeth o sut i weithredu fel gweithiwr proffesiynol, yn cynnwys pwysigrwydd ymarweddiad proffesiynol, gweithio i derfynau amser, ymateb i negeseuon a chyflwyno.
Ymarfer sy'n ystyriol o drawma	Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn ddull ar gyfer gweithio gyda phobl sy'n cydnabod effaith helaeth trawma, sy'n deall sut allai trawma effeithio ar ymddygiad, perthnasoedd a lles, ac sy'n anelu'n weithredol i osgoi ail-drawmateiddio trwy greu amgylcheddau sy'n ddiogel, yn llawn parch ac sy'n grymuso.
Ymddygiad yr ydych chi'n ei ystyried yn heriol	Defnyddir y term hwn yn lle 'ymddygiad heriol' gan y dylai'r pwyslais fod ar yr oedolyn i ddeall eu hymatebion i ymddygiad plant, er mwyn cefnogi'r plentyn i deimlo'n ddiogel yn eu lleoliad.
Ymddygiadau chwarae	Disgrifir yn aml fel y gweithredoedd, mynegiannau a rhyngweithiadau gweladwy y mae plant yn eu defnyddio pan fyddant yn dewis a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain o wirfodd. Mae'n adlewyrchu eu cymhelliannau mewnol, eu creadigedd a'u hymatebion i'w hamgylchedd.

At ddibenion cyfeirio academiaidd, dylid cyfeirio at yr eirfa hon fel: Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU (2026) *Geirfa Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae*.

